

Cynhesrwydd rhyfeddol

“Yn wir, yn wir, rwy’n dweud wrthyfch fod y sawl sy’n gwranddo ar fy ngair i, ac yn credu’r hwn a’m hanfonodd i, yn meddu ar fywyd tragwyddol. Nid yw’n dod dan gondemniad.” (adn. 24)

Beth am ddarlennu Ioan 5:16–30 ac yna myfyrio

Bu i ni ddechrau’r adran hon trwy gyfeirio at y foment fendigedig yna pryd y daeth Martin Luther i weld fod cyfiawnhad trwy ffydd ac nid trwy weithredoedd, a dechreuodd ar y broses o ailagor y ffynnon oedd wedi ei llenwi gan sbwriel meddylfryd Philistaidd am ganrifoedd. Mae’n ddi-ddorol fod John Wesley tua 200 mlynedd yn ddiweddarach, er ei fod eisoes yn offeiriad, wedi adnabod profiad ysbrydol rhagorol wrth iddo wrando ar ddarlenniad o ragarweiniad Luther i esboniad ar yr epistol at y Rhufeiniaid.

Wrth iddo wrando ar ddisgrifiad y diwygiwr o’r modd y mae Duw yn newid y galon trwy ffydd, fe dystia Wesley ei fod yn profi ei galon ei hun yn cael ei chynhesu yn anghyffredin. “Teimplais fy mod yn ymddiried yng Nghrist, yng Nghrist yn unig, am iachawdwriaeth,” meddai, “a rhoddwyd sicrwydd i mi ei fod wedi symud fy mhechodau, hyd yn oed fy mhechodau i ac wedi fy achub o gyfraith pechod a marwolaeth.” Hyd at y foment honno, yr oedd wedi bod yn ansicr o’i iachawdwriaeth, ond fe newidiwyd ei fywyd gan y sicrwydd a dderbyniodd, a thrwyddo ef, fywydau miloedd o rai eraill a ddaeth i adnabod Crist trwy ei bregethu.

Ychydig yn ôl, wrth i mi arwyddo llyfrau ar ddiwedd seminar, sibryddodd gwraig i’r clust, “Yn fy eglwys i, mae pobl yn dweud ei bod yn amhriodol i rai honni eu bod wedi eu hachub.” “Wyt ti wedi dy achub?” gofynnais iddi. “Dwi’n meddwl,” oedd ei hateb, “ond efallai y byddai’n arwydd o falchder i fod yn sicr.” “Wel, dwi’n credu ei fod yn arwydd o falchder cnawdol i rai sydd yn proffesu eu bod yn credu yn Iesu ddweud unrhyw beth yn wahanol, oherwydd y mae Iesu ei hunan yn cyhoeddi “fod y sawl sydd yn credu yn of i yn meddu ar fywyd tragwyddol”. Oeddod am ychydig ac yna sibryddodd, “Diolch,” ac yna mynd ar ei ffordd. Mae sicrwydd o iachawdwriaeth yn awr yn bosibl – mae gwadu hynny yn arwydd o feddylfryd Philistaidd.

Beth am fynd ymlaen i ddarlennu:

Ioan 3:14–18; 20:31; Rhuf. 10:4–13

Meddylwch am y cwestiynau hyn:

1. Pam ysgrifennodd Ioan yr efengyl?
2. Beth sy’n rhaid i ni ei wneud i fod yn gadwedig?

Gweddi

O Dad, mae’n fendigedig i wybod ac i wybod i sicrwydd, o goroni dy Fab yn Frenin ar fy mywyd, fy mod yn awr yn blentyn y Duw byw. Rwyf mor ddiolchgar, yn dragwyddol ddiolchgar. Amen.